COFNOD O BENDERFYNIADAU CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR, Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB / O BELL DRWY GYFRWNG TIMAU MICROSOFT DDYDD MAWRTH, 19 MEDI 2023 AM 14:30

Presennol

Y Cynghorydd H David – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| R Goode | J Gebbie | N Farr | H Williams |
| JP Blundell | J Spanswick | | |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Kelly Watson | Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol |
| Carys Lord | Prif Swyddog Cyllid Perfformiad a Newid |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Michael Pitman | Swyddog Cymorth Technegol – Gwasanaethau Democrataidd |
| Stephen Griffiths | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Michelle Hatcher | Rheolwr Grŵp Cymorth i Ddysgwyr |
| Becca Avci | |
| Paul Miles | Rheolwr Grŵp AD ac OD |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Cymeradwyo Cofnodion |
| Y penderfyniad wnaed | PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion 18/07/2023 fel cofnod gwir a chywir |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 19 Medi 2023 |
| Buddiannau personol neu ragfarnus a ddatgelwyd | Dim |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Cynllun Cynaladwyedd 3 blynedd i wella'r canlyniadau i Wasanaethau Plant a Theuluoedd ym Mhen-y-bont ar Ogwr |
| Y penderfyniad wnaed | PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet:<br><br>• Yn cymeradwyo 'Meddwl am y Teulu', y cynllun cynaladwyedd 3 blynedd ar gyfer plant a theuluoedd ym Mhen-y-bont ar Ogwr.<br><br>• Yn cytuno y dylid cyflwyno trosglwyddiad y gyllideb o £1 filiwn i'r Gwasanaethau Cymdeithasol i'r Cyngor, i gael ei gymeradwyo yn unol â Rheolau Gweithdrefnau Ariannol y Cyngor;<br><br>• Yn nodi'r defnydd ychwanegol o £2.5 miliwn EMR yn y flwyddyn ariannol gyfredol i gefnogi'r gwasanaeth fel y manylir yn yr adroddiad. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 19 Medi 2023 |
| Buddiannau personol neu ragfarnus a ddatgelwyd | Y Cynghorydd J Spanswick – Buddiant rhagfarnus |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Polisïau'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles – Cynllun Setliad yr Undeb Ewropeaidd |
| Y penderfyniad wnaed | PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet wedi ystyried ac yn cymeradwyo'r polisi newydd ar gyfer Cynllun Setliad yr Undeb Ewropeaidd fel yr atodwyd yn Atodiad 1. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 19 Medi 2023 |
| Buddiannau personol neu ragfarnus a ddatgelwyd | Dim |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Adolygiad o Brosiect Hybont |
| Y penderfyniad wnaed | PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet:<br><br>1. Yn nodi'r adroddiad a'r gwaith manwl a wnaed hyd yma ar y prosiect hwn |

| | |
|---|---|
| | 2. Yn cytuno i ddilyn Dewis B a thynnu allan o'r prosiect ar hyn o bryd, oherwydd anallu'r Cyngor i gwrdd â'r ymrwymiadau ariannol sylweddol oedd yn ofynnol ac amserlenni'r prosiect. Fodd bynnag, argymhellir hefyd bod y Cyngor yn cynnal deialog gyda phartneriaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, ac iddynt hwy ganfod ffordd wahanol ymlaen gyda MEL.<br><br>3. Yn dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau, mewn ymgynghoriad â swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro, i hysbysu MEL am y bwriad i dynnu allan o'r Memorandwm o Ddealltwriaeth, dyddiedig yr 8fed o Orffennaf 2022. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 19 Medi 2023 |
| Buddiannau personol neu ragfarnus a ddatgelwyd | Dim |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Adroddiad Blynyddol y Cyd-wasanaethau Rheoleiddio 2022-23 |
| Y penderfyniad wnaed | PENDERFYNWYD: Nodi Adroddiad Blynyddol y Cyd-wasanaethau Rheoleiddio am 2022-23 |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 19 Medi 2023 |
| Buddiannau personol neu ragfarnus a ddatgelwyd | Dim |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Adroddiad Cynnydd Blynyddol Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol 2023 |
| Y penderfyniad wnaed | PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet<br><br>• Yn nodi canlyniadau monitro ansawdd yr aer a gasglwyd yn 2022 ac yn cymeradwyo Adroddiad Cynnydd Blynyddol 2023 (yn atodedig fel atodiad 1) i'w gyflwyno fel y fersiwn derfynol i Lywodraeth Cymru erbyn yr 31ain o Ragfyr 2023.<br><br>• Yn nodi'r cynnydd wnaed mewn datblygu Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer ar gyfer Stryd y Parc ac y caiff Adroddiad Cabinet ar wahân, i gymeradwyo'r Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer terfynol, ei ddwyn gerbron y Cabinet maes o law. |

| | |
|---|---|
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 19 Medi 2023 |
| Buddiannau personol neu ragfarnus a ddatgelwyd | Dim |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Cynllun Gweithlu Strategol |
| Y penderfyniad wnaed | PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet:-<br><br>1) Yn nodi'r gwaith a wnaed i ddatblygu'r Cynllun Gweithlu Strategol, yn enwedig yr ymgysylltu a amlinellwyd ym mharagraff 3.5<br><br>2) Yn cymeradwyo'r Cynllun Gweithlu Strategol oedd yn gysylltiedig yn Atodiad 1 ac yn nodi'r gwaith fydd yn dal yn angenrheidiol i ddatblygu'r cynlluniau cyflawni. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 19 Medi 2023 |
| Buddiannau personol neu ragfarnus a ddatgelwyd | Dim |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Adroddiad Gwybodaeth i'w nodi |
| Y penderfyniad wnaed | PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn cydnabod cyhoeddi'r adroddiad y cyfeiriwyd ati ym mharagraff 3.1 yr adroddiad. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 19 Medi 2023 |
| Buddiannau personol neu ragfarnus a ddatgelwyd | Dim |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Prosiect Adeiladu Perthynas Gyda'n Gilydd (RBT) |
| Y penderfyniad wnaed | PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet: |

| | |
|---|---|
| | Yn nodi cynnwys yr adroddiad;<br><br>Yn dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd i gymeradwyo telerau terfynol y cytundeb lefel gwasanaeth (CLG) mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Cyllid a'r Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, AD a Chorfforaethol; ac<br><br>Yn awdurdodi'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd i weithredu'r cytundeb lefel gwasanaeth, unwaith y bydd yn ei ffurf derfynol, ar ran y Cyngor. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 19 Medi 2023 |
| Buddiannau personol neu ragfarnus a ddatgelwyd | Dim |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Penodi Llywodraethwyr Awdurdod Lleol |
| Y penderfyniad wnaed | <u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r penodiadau a eglurwyd ym mharagraffau 3.1 a 3.4. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 19 Medi 2023 |
| Buddiannau personol neu ragfarnus a ddatgelwyd | Y Cynghorydd N Farr – Buddiant Personol – Llywodraethwr Ysgol<br>Y Cynghorydd J Gebbie – Buddiant Personol – Llywodraethwr Ysgol<br>Y Cynghorydd JP Blundell – Buddiant Personol – Llywodraethwr Ysgol |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Rhaglen Foderneiddio Ysgolion – Ysgol Gynradd Coety – Canlyniad yr Hysbysiad Statudol |
| Y penderfyniad wnaed | <u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet<br><br>• yn nodi canlyniad yr hysbysiad statudol a gyhoeddwyd i wneud newid rheoleiddiedig i ehangu Ysgol Gynradd Coety i fod yn ysgol gyda 2.5 dosbarth derbyn;<br><br>• wedi penderfynu y dylid gweithredu'r cynnig;<br><br>• wedi cymeradwyo cyhoeddi'r adroddiad am wrthwynebiadau; a |

| | |
|---|---|
| | • chymeradwyo cyhoeddi llythyr penderfyniad, fel sy'n ofynnol gan y Cod. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 19 Medi 2023 |
| Buddiannau personol neu ragfarnus a ddatgelwyd | Dim |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Polisi Gorfodi Presenoldeb Ysgol a Hysbysiadau Cosb Benodedig am Absenoldeb heb Ganiatâd - Cod Ymddygiad |
| Y penderfyniad wnaed | PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet:<br>• yn cymeradwyo'r Polisi Gorfodi Presenoldeb Ysgol; ac<br>• yn cymeradwyo'r Hysbysiadau Cosb Benodedig am absenoldeb o'r ysgol heb ganiatâd (Cod Ymddygiad). |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 19 Medi 2023 |
| Buddiannau personol neu ragfarnus a ddatgelwyd | Dim |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (2022-2032) |
| Y penderfyniad wnaed | PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn nodi'r cynnydd a wnaed ac yn darparu unrhyw adborth fel bo angen. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 19 Medi 2023 |
| Buddiannau personol neu ragfarnus a ddatgelwyd | Dim |